



Dyfodol gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru



**Paratowyd yr adroddiad hwn gan Andy Mudd
ym mis Tachwedd 2025
Fersiwn Derfynol 1.0**



Mae APSE (Cymdeithas er Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus) yn gorff llywodraeth leol nid-er-elw sy'n gweithio gyda mwy na 300 o gynghorau ledled y DU. Gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus, APSE yw'r arbenigwyr mwyaf blaenllaw mewn gwasanaethau rheng flaen awdurdodau lleol. Mae'n cynnal rhwydwaith ar gyfer darparwyr gwasanaethau rheng flaen mewn meysydd fel casglu sbwriel a gwastraff, parciau a gwasanaethau amgylcheddol, hamdden, prydau ysgol, glanhau a thai, yn ogystal â chynnal a chadw adeiladau.

Mae APSE yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer awdurdodau lleol, megis meincnodi, ymgynghoriaeth, seminarau, ymchwil, dogfennau briffio a hyfforddiant. Trwy eu cangen ymgynghorol mae APSE yn darparu cymorth arbenigol i gynghorau, â'r nod amlwg o ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau a gwerth am arian trwy adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau. Mae APSE yn cynnal mwy na 100 o brosiectau bob blwyddyn, ac mae cleientiaid yn elwa ar ymagwedd foesegol nid-er-elw'r cwmni at wasanaethau ymgynghorol.

Comisiynwyd y gwaith ymgynghori hwn trwy APSE Synergy yn masnachu fel APSE Solutions. Mae APSE Synergy yn eiddo llwyr i APSE. Yn gweithredu ar sail foesegol i gefnogi'r cynghorau sy'n aelodau o APSE. Mae APSE Synergy Cyf. yn gwmni preifat cyfyngedig gan gyfrandaliadau wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif cwmni 16283438. Mae eu swyddfa gofrestredig yn 3ydd Llawr, Tŷ Trafford, Ffordd Caer, Old Trafford, Manceinion M32 0RS ("y Cwmni").

INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Gold



**Cymdeithas er Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau
Cyhoeddus
Tŷ Trafford
Ffordd Caer
Manceinion
M32 0RS
ffôn: 0161 772 1810
e-bost: enquiries@apse.org.uk
gwe: www.apse.org.uk**

Rhagair gan Jess Turner, ysgrifennydd rhanbarthol UNISON Cymru



Pam na ddylai Cymru fod â gwasanaethau cyngor o'r radd flaenaf?

Ers blynyddoedd, mae pobl ledled Cymru wedi gweld gwasanaethau cyhoeddus llywodraeth leol hanfodol y maent yn dibynnu arnynt yn diflannu, oherwydd bod gwleidyddion wedi dweud nad oes digon o arian i'w cyllido.

Pan fydd clwb ieuenctid yn cau, pan fydd llyfrgell neu ganolfan gofal dydd i oedolion yn cau neu pan fydd canolfan hamdden sy'n cael ei rhedeg gan sefydliad allanol yn lleihau ei horiau agor ac yn codi ffioedd mynediad, mae'r glud sy'n rhwymo cymuned at ei gilydd yn cael ei lacio ychydig ymhellach. Mae'r gred bod

cynrychiolwyr gwleidyddol yn gwneud y peth iawn ar ran eu dinasyddion wedi'i siglo.

Yn y cyfamser, mae miloedd o weithwyr llywodraeth leol Cymru'n mynd i'r gwaith bob dydd yn rhwystredig na allant ddarparu'r lefel o wasanaeth y byddent yn ei ddymuno oherwydd nad yw'r adnoddau - ariannol a staff - yno. Mae diswyddiadau dros y blynyddoedd yn golygu bod y staff sy'n weddill yn llosgi allan oherwydd eu bod yn gwneud y swyddi y byddai dau berson wedi'u gwneud yn y gorffennol.

Maent wedi digalonni oherwydd bod llywodraethau olynol wedi cyfyngu eu cyflogau am bymtheg mlynedd, ac mae eu cyllidebau teuluol wedi dod dan straen amhosibl.

Does dim rhaid i bethau fod fel hyn. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod buddsoddi mewn gwasanaethau cyngor yn cryfhau cymunedau ac yn golygu bod pobl yn hapusach ac yn iachach.

Fel mae'r adroddiad APSE hwn a gomisiynwyd gan UNISON yn ei ddangos, mae methiant i gyllido gwasanaethau ataliol llywodraeth leol yn ddigonol dros ddegawdau yn golygu bod cymdeithas bellach yn gwario symiau hyd yn oed yn fwy, ac yn cynyddu'r galw, ar wasanaethau adweithiol, fel y GIG a'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'r adroddiad hwn yn gofyn cwestiynau sylfaenol i lywodraeth Cymru a'r pleidiau sy'n cystadlu i fod y llywodraeth nesaf yng Nghymru: beth ydyn ni eisiau i lywodraeth leol ei gyflawni a sut ydym ni'n mynd i'w ariannu; sut mae allanoli gwasanaethau yn camwahanu yn erbyn menywod, yn tanseilio atebolrwydd ac yn tynnu miliynau o bunnoedd o elw allan o Gymru ac i mewn i hafanau treth mewn gwledydd eraill.

Yn ei hanfod, mae'n gofyn sut fath o gymdeithas ydyn ni am ei hadeiladu? Gwasanaethau cyhoeddus o'r radd flaenaf yw'r sylfaen ar gyfer hyn.

Jess Turner

Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol	5
2.	Rhagarweiniad a Chefndir	7
3.	Y Sefyllfa Bresennol	8
4.	Effaith Toriadau Gwariant	15
5.	Effaith Contractio Allanol	18
6.	A Yw Allanoli Yn Gamwahaniaethol Yn Ei Hanfod?	19
7.	Cymunedau ac Economiâu Lleol	21
8.	Cyfeiriad Polisi	21
9.	Y Ffordd Ymlaen	24
	Ymwadiad	27

1. Crynodeb Gweithredol

Nododd ethol llywodraeth Thatcher ym 1979 ddiwedd consensws deugain mlynedd ar bolisiau cymdeithasol ac economaidd a oedd wedi trawsnewid Prydain yn arweinydd byd-eang o ran ailddosbarthu cyfoeth a darparu gwasanaethau cyhoeddus 'o'r crud i'r bedd'. Ers hynny, mae egwyddorion ailddosbarthu, cyffredinol y wladwriaeth les wedi cael eu tanseilio'n raddol i adael y wlad yn llai cyfartal a llawer o wasanaethau cyhoeddus craidd mewn argyfwng. Cyflymodd y cyfnod o gyni a ddilynodd argyfwng ariannol 2008 y newidiadau hyn, ond ni chafodd fawr o effaith ar lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus na maint y wladwriaeth.

Y prif effeithiau ar Gymru yw:

- Symud o wasanaethau cyffredinol i fudd-daliadau ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd
- Cynnydd yn y galw am wasanaethau adweithiol, gan fod gwasanaethau ataliol wedi cael eu tan-ariannu'n systematig
- Diffyg ariannol enfawr gan nad yw cyllido'n gallu cadw i fyny â'r galw
- Lefelau trethiant uwch nag erioed o'r blaen ar gyfer y rhai ar incwm canolig ac isel
- Symudedd cymdeithasol wedi'i atal
- Argyfwng tai wedi'i achosi gan y symudiad o adeiladu tai cyhoeddus i roi cymhorthdal i rentu preifat
- Cyflog ac amodau gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus yn syrthio tu ôl i bobl sy'n gweithio yn y sector preifat
- Cynnydd yn yr arian cyhoeddus sy'n mynd i elw preifat
- Gweithlu gwasanaeth cyhoeddus dwy haen, gyda'r isafswm posib mewn cyflog a darpariaeth pensiwn i'r rhai y mae eu swyddi wedi'u contractio allan
- I'r rhan fwyaf, mae'r 'ddemocratiaeth sy'n seiliedig ar berchen eiddo' a addawyd, lle mae pobl yn rhydd i wario eu harian eu hunain fel y mynnant, wedi methu â chael ei gwireddu.

Ers datganoli mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y problemau hyn i raddau helaeth ac wedi mabwysiadu polisiau sydd â'r nod o fynd i'r afael â nhw. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn pellgyrhaeddol o ddeddfwriaeth sydd â photensial i greu Cymru fwy ffyniannus a thecach sy'n canolbwyntio ar achosion anfantais gymdeithasol ac economaidd. Yn anffodus, mae'n methu â mynd i'r afael â'r angen i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol fel cam cyntaf tuag at leihau'r galw am ddarpariaeth adweithiol. Mae colli darpariaeth gwasanaethau ieuencid er enghraifft wedi'i gysylltu â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, dirywiad yn iechyd meddwl pobl ifanc, colli cyfleoedd diogelu, lefelau uwch o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a mwy o bobl ifanc yn destun camfanteisio.

Mae'n amlwg bod gan ail-greu gwasanaethau cynhwysol sydd wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc y potensial i leihau'r galw am rai o'r gwasanaethau adweithiol drutaf, ond ni fydd hyn yn digwydd heb fuddsoddiad cychwynnol – sydd i bob diben yn golygu dod ag arbedion yn y dyfodol ymlaen i'w hariannu'n effeithiol. Os na fydd hyn yn digwydd, bydd y cylch dieflig o doriadau mewn gwasanaethau ataliol sy'n arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau adweithiol, gan arwain at doriadau pellach mewn gwasanaethau ataliol, sy'n sbarduno cynnydd pellach yn y galw am wasanaethau adweithiol, yn parhau. Mae hon yn sefyllfa anghynladwy o ran cost a chanlyniadau.

Os yw Cymru a gweddill y DU am ail-greu gwladwriaeth les gynhwysol, sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd sy'n gwella bywyd, rhaid iddi wynebu'r myth o anfforddiadwyedd. Nid yw'r DU yn cael ei threthu'n uchel o'i gymharu â gwledydd sydd â pholisiau cymdeithasol tebyg, ac nid yw'n perfformio'n dda o ran ailddosbarthu cyfoeth ac incwm ychwaith. I'r rhan fwyaf o drethdalwyr, mae gwella'r olaf o'r rhain yn amcan polisi pwysicach na lleihau'r dreth gyffredinol a gesglir, ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai'r allwedd i gyflawni hyn yw'r cydbwysedd rhwng gwasanaethau a throsglwyddiadau ariannol. Mae trethi yn y gwledydd Nordig yn uwch ar y cyfan, ond mae yna lefelau llawer uwch o ailddosbarthu a gyflawnir trwy wasanaethau cyffredinol fel darpariaeth gofal plant am ddim sy'n hybu symudedd cymdeithasol rhyng-genedlaethol yn ogystal â chynhyrchiant a chydaddoldeb cymdeithasol. Y canlyniad yw, er gwaethaf trethi uwch, y gwledydd hyn sy'n gyson ar frig y gynghair o ran hapusrwydd.

Nid bwriad yr adroddiad hwn yw creu rhestr ddymuniadau sy'n anwybyddu realiti economaidd. Mae gallu Cymru i weithredu'n unochrog yn gyfyngedig, ac mae'r DU yn rhan o system economaidd fyd-eang. Mae profiad diweddar yn dangos beth all ddigwydd pan fydd llywodraethau'n gwneud ymrwymïadau heb eu hariannu i dorri trethi neu gynyddu gwariant ar wasanaethau. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod torri'r cylch galw a ddisgrifiwyd uchod yn hanfodol i fynd i'r afael â'r argyfwng gwasanaethau cyhoeddus a chyflawni amcanion datganedig llywodraeth Cymru. Gall hyn olygu bod yn rhaid i'r dreth gyffredinol a gesglir gynyddu, ond yn bwysicach na hyn yw'r angen am ailfuddsoddi mewn gwasanaethau sy'n arwain at ailddosbarthu cyfoeth ac incwm yn decach. Hyn yn ogystal â hyrwyddo symudedd cymdeithasol fel y mecanwaith mwyaf effeithiol ac effeithlon ar gyfer mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol. Elfennau allweddol hyn yw:

- Ail-ganolbwyntio ar atal e.e. darpariaeth blynnyddoedd cynnar i leihau'r galw am wasanaethau adweithiol fel gofal plant preswyl
- Symud y cydbwysedd i ffwrdd o drosglwyddiadau ariannol yn ôl i wasanaethau cyffredinol – e.e. o fudd-daliadau tai i adeiladu tai cyhoeddus.
- Hyrwyddo a mynd ar drywydd cydraddoldeb ôl-dreth gwell fel blaenoriaeth ynddo'i hun
- Adfer statws gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus a chydabod manteision economaidd-gymdeithasol cynhenid cyflog a phensiynau digonol
- Rhoi terfyn ar ollyngiad arian cyhoeddus prin ar ffurf elw preifat trwy raglen o gontractio mewnol

2. Rhagarweiniad a Chefndir

- 2.1 Mae polisi cymdeithasol yn ymwneud yn bennaf â sut i ddelio â'r rhai sy'n dioddef yn sgil system economaidd y farchnad rydd. Yn hanesyddol, roedd y DU yn trin y tlawd a'r bregus fel pe baent yn gyfrifol am eu hanlwc eu hunain, ac i'w cosbi am fod yn analluog a diglem. Cynlluniwyd y 'wyrwys' yn y Brydain Fictoraidd yn fwriadol fel y dewis olaf, ag amodau cosbol â'r ddarpariaeth leiaf bosib. Ychydig iawn o gyfranogiad, os o gwbl, oedd gan y wladwriaeth mewn ymdrechion i fynd i'r afael â natur ryng-genedlaethol tlodi ac anghydraddoldeb trwy fesurau cyffredinol fel addysg neu iechyd y cyhoedd.
- 2.2 Roedd y polisi cymdeithasol a ddaeth i'r amlwg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif yn gynyddol o blaid cyffrediniaeth a rôl gref i'r llywodraeth. Dylanwadwyd ar y newid hwn gan sawl ffactor:
- Dylanwad gwleidyddol cynyddol undebau llafur, a arweiniodd at ddiwygiadau trefol cynnar ac ymddangosiad y Blaid Lafur fel grym dros newid cymdeithasol.
 - Ysgogodd anghenion milwrol, a amlygwyd gan iechyd gwael y rhai a recriwtiwyd yn ystod Rhyfel y Boer, ddiwygiadau fel Deddf Addysg (Darparu Prydau Bwyd) 1906 a sefydlu gwasanaethau iechyd ysgolion.
 - Cynnydd mewn diwydiannau a phoblogaethau trefol, a greodd heriau iechyd cyhoeddus ac a ysgogodd ddiwygiadau dyngarol a hunan-fuddiannol i gynnal gweithlu iach.
 - Argyfyngau economaidd, fel y Dirwasgiad Hir rhwng 1873 a 1896 a'r Dirwasgiad Mawr yn y 1930au, a anogodd gynllunio canolog a diwygio cymdeithasol.
- 2.3 Nododd buddugoliaeth Llywodraeth Lafur ym 1945 ehangu sylweddol ar gyfranogiad y wladwriaeth, gan gyflwyno gofal iechyd cyffredinol a safoni swyddogaethau allweddol llywodraeth leol.
- 2.4 Nid oedd cefnogaeth gyffredinol i'r wladwriaeth les ar ôl y rhyfel. Dylanwadodd "*Road to Serfdom*" (1944) Hayek ar rethreg y Ceidwadwyr yn etholiad 1945, ond golygodd y golled sylweddol a gafwyd fod ceidwadaeth gwladwriaeth fach yn cael ei halltudio i ymylon y blaid, lle arhosodd am ddau ddegawd.
- 2.5 Rhwng 1945 a 1970, profodd y DU dwf economaidd a symudedd cymdeithasol, gyda'r GIG yn dod yn fodel byd-eang; roedd adeiladu tai cyngor ar ei anterth, a chyrhaeddiad addysgol ar gynydd.
- 2.6 Roedd economeg Keynesaidd yn sail i'r wladwriaeth les, gan annog cynnydd mewn gwariant ar les yn ystod cyfnodau o ddirywiad economaidd. Fodd bynnag, arweiniodd argyfwng olew'r 1970au at chwyddiant, gan danseilio'r ymagwedd hon a pharatoir ffordd ar gyfer polisïau marchnad rydd.
- 2.7 Ildiodd y consensws yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel i bolisïau a oedd yn ystyried gwasanaethau cyhoeddus yn anfforddiadwy ac yn aneffeithlon. O dan Margaret Thatcher, aeth y Ceidwadwyr ati i breifateiddio a marchnadoli, gan ddefnyddio pŵer canolog y wladwriaeth i ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus.
- 2.8 Roedd llywodraeth Thatcher o blaid diwygiadau marchnad rydd, gan leihau ymwneud y wladwriaeth â diwydiant, preifateiddio cyfleustodau, ac agor gwasanaethau cyhoeddus i gontractwyr preifat. Dechreuodd y cydbwysedd rhwng budd-daliadau ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd a gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol symud i ffwrdd o'r olaf o'r rhain tuag at system a oedd yn ffafrio ymyriad fel dewis olaf yn hytrach na buddsoddi mewn gwasanaethau a gynlluniwyd i wella cyfleoedd i bawb.
- 2.9 Symudodd polisïau fel gwerthu tai cyngor ac ehangu'r sector rhentu preifat gyfoeth cyhoeddus i ddwylo preifat, gydag effeithiau hirdymor sylweddol ar dai cymdeithasol a gwariant cyhoeddus. Mae ymchwil diweddar wedi dod i'r casgliad bod y 1.9 miliwn o dai a werthwyd dan yr Hawl i Brynu Lloegr wedi arwain at £200bn o gyfoeth cyhoeddus Lloegr yn cael ei roi i ffwrdd. Er i'r cynllun ddod i ben yng Nghymru yn 2016, roedd 139,000 o dai eisoes wedi cael eu preifateiddio. Yn seiliedig ar ddata Lloegr, mae hyn yn awgrymu trosglwyddo £15bn o gyfoeth cyhoeddus Cymru i'w chyn-denantiaid cyngor.
- 2.10 Mae contractio allanol bellach wedi'i wreiddio'n gadarn ym mholisi cymdeithasol y DU. Hyd yn oed lle nad yw gwasanaethau'n destun contractio allan ar raddfa fawr, maent yn gweithredu o dan 'amodau marchnad' lle maent wedi'u rhannu'n unedau cyflawni sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, tra bod cwsmer


neu gomisiynydd ffug yn gwneud penderfyniadau prynu ffug.

- 2.11 Mae'r ymagwedd hon sy'n canolbwyntio ar y farchnad yn seiliedig ar y gred bod cystadleuaeth yn lleihau costau ac yn gwella effeithlonrwydd, â'r ddamcaniaeth o alluogi trethi is a safonau byw uwch. Y rhesymeg sydd gan gefnogwyr yr ymagwedd hon yw'r gred bod marchnadoedd yn naturiol yn gostwng cost i'r lefel isaf bosibl. Yn ddamcaniaethol ac yn unol â gweledigaeth Thatcher (ac yn yr Unol Daleithiau, gweledigaeth Reagan) o ddemocratiaeth lle mae pobl yn berchen ar eiddo ac yn rhydd i wario eu harian eu hunain fel y dymunant, byddai cymhwyso rheolau'r farchnad i wasanaethau cyhoeddus yn caniatáu cyfraddau trethiant is, yn hybu twf economaidd ac yn gwella safonau byw i bawb.
- 2.12 Mae'n amhosibl ynysu effaith marchnata yn llwyr oddi wrth ffactorau eraill, ond nid oes dim i awgrymu bod hyn wedi cael yr effaith a ddymunwyd. Mae llawer bellach yn ystyried y 1950au a'r 60au yn oes aur o dwf economaidd, wedi'i hysgogi o leiaf yn rhannol gan bolisi economaidd ymyriadol, ac ehangu gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol a lles y talodd y twf hwn amdano.

3. Y Sefyllfa Bresennol

- 3.1 Er gwaethaf 50 mlynedd o gontractio allanol a phreifateiddio, mae gwladwriaeth y DU yn gwario mwy, fel cyfran o Gynnyrch Domestig Gros (CDG), nag yr oedd yn y 1970au. Yr unig categori o wariant sydd wedi gostwng yw amddiffyn. Yn y cyfamser, mae refeniw cyhoeddus (trethiant) tua 39% o CDG ar hyn o bryd, ar ôl bod yn 40% ym 1950 a 33% ym 1973. Yr hyn sydd wedi newid yw sut mae'r baich treth wedi symud i fod yn llai graddol. Mae toriadau sylweddol yng nghyfradd uchaf treth incwm, ynghyd â chynnydd cyfatebol mewn trethi anuniongyrchol, fel TAW, yn golygu bod y system yn llai effeithiol o ran ailddosbarthu nawr nag yr oedd pan ddaeth llywodraeth Thatcher i rym ym 1979.
- 3.2 Hyd yn oed pan ystyrir budd-daliadau, mae sefyllfa ariannol net y tlotaf yn sylweddol waeth nag yr oedd ym 1979. Mae'r tabl isod yn dangos bod y bobl dlotaf yng Nghymru, h.y. D1, yn dal i fod yn elwa, ond eu bod bellach yn derbyn 15% i 20% o incwm gros yn hytrach na'r bron i 30% roeddent yn ei dderbyn ym 1979. Mae'r rhai cyfoethocaf – D8-D10 – bellach yn cyfrannu mwy, gan golli 40-50% o incwm gros o'i gymharu â 30-35% ym 1979 ond mae'r degfedau canol bellach yn fwy tebygol o fod yn gyfranwyr net nag yr oeddent ym 1979¹.


Effeithiau Ailddosbarthol Net Trethi a Budd-daliadau ar draws Degfedau Incwm yng Nghymru (1979 vs 2015)



¹ Cynhyrchwyd gan ddefnyddio Microsoft Co-Pilot gan dynnu ar ddata o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys CThEF, ONS ac IFS

- 3.3 Nid yw marchnadoli trwy contractio allan a chyflwyno cystadleuaeth fewnol wedi lleihau cost gwasanaethau cyhoeddus, ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod hyn wedi eu gwneud yn well nac yn fwy effeithlon.
- 3.4 Ychydig iawn o effaith sydd wedi bod ar lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus na maint y wladwriaeth yn sgil degawdau o bwysau ar wariant cyhoeddus, gan gynnwys y cyfnod o gyni a ddilynodd argyfwng ariannol 2008, ac i'r rhan fwyaf o bobl nid yw gostyngiadau a addawyd mewn trethi wedi cael eu gwireddu. Mae symudedd cymdeithasol wedi dod i stop gyda 'Chenhedlaeth Y' (a aned rhwng 1981 a 1996), y genhedlaeth gyntaf yn y cyfnod modern i fod yn waeth eu byd na'u rhieni.²
- 3.5 Mewn termau real, mae refeniw llywodraeth Cymru fesul pen o'r boblogaeth yn uwch nawr, tua £7,400, nag yr oedd yn 2008, sef £6,200. Mae gwariant y pen hyd yn oed yn uwch ar gyfartaledd, gan adlewyrchu diffyg cyllidol cynyddol. Mae hyn, yn ei dro, yn sbarduno'r hyn a elwir yn fylchau pwysau ar draws pob maes o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, fel y dangosir yn y tabl isod.

Bwlch Pwysedd yng Ngwasanaethau Llywodraeth Leol Cymru – Gwariant vs Galw (2008-2024)



Gwasanaethau Cymdogaeth e.e. rheoli gwastraff, priffyrdd, glanhau strydoedd, parciau a mannau agored – Mae gwariant wedi gostwng tua 15% mewn termau real ers 2008, tra bod y galw wedi codi tua 15%, gan adael bwlch o 30 pwynt.

Tai – Un o'r bylchau mwyaf: mae'r galw wedi cynyddu tua 40%, tra bod gwariant i lawr tua 10%.

Gofal Cymdeithasol – Mae'r galw wedi cynyddu tua 30%, mae gwariant wedi cynyddu ond dim ond tua 10%, felly mae'r bwlch yn llai nag yn achos tai, ond mae'n dal i ehangu.

Diwylliant/Hamdden – Y toriadau gwariant mwyaf (tua 35%) yn erbyn twf cymedrol yn y galw (tua +5%).

GIG – Mae'r galw wedi cynyddu tua 25%, mae gwariant wedi cynyddu tua 20% – mae'r bwlch yn llai, ond mae'n dal i fod yno.

Addysg – Mae'r galw wedi cynyddu tua 15%, mae gwariant yn aros fwy neu lai'n wastad mewn termau real.

Plismona – Galw a gwariant yn gymharol wastad; y bwlch lleiaf o'r holl wasanaethau yn y grŵp.

- 3.6 Crëwyd y dadansoddiad hwn gyda chymorth *Microsoft Copilot* i gasglu ynghyd ddata o amrywiaeth o ffynonellau fel y nodir isod.

² Boston Consulting Group, Op Cit.

- 3.7 Mae elfen gwariant y dadansoddiad wedi'i thynnu o gyllideb a dogfennau Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, wedi'u dadchwyddo gan ddefnyddio dadchwyddwr CDG y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae dangosyddion galw'n seiliedig ar y canlynol::
- Galw ar y GIG: mesurau gweithgaredd megis derbyniadau i'r ysbyty, apwyntiadau all-gleifion, ac ymgynghoriadau â meddygon teulu o Ystadegau GIG Cymru a StatsWales.
 - Galw am ofal cymdeithasol: nifer y plant sy'n derbyn gofal, oedolion sy'n derbyn pecynnau gofal, ac oriau gofal cartref, o ddata Gweithgarwch Gwasanaethau Cymdeithasol StatsWales.
 - Galw am addysg: niferoedd disgyblion a chofrestriadau o Gyfrifiad Ysgolion StatsWales.
 - Galw am dai: aelwydydd ar restrau aros awdurdodau lleol a ffigurau digartrefedd, o Ystadegau Tai StatsWales.
 - Galw ar blismona: cyfrolau troseddau a digwyddiadau a gofnodwyd o Droseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu gan y Swyddfa Gartref ac Arolwg Troseddau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru a Lloegr (is-set Cymru).
 - Gwasanaethau diwylliant/hamdden a chymdogaeth: dangosyddion defnydd megis ymweliadau â llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden, y tunelli o wastraff a gasglwyd, a cheisiadau am wasanaethau amgylcheddol, o Ystadegau Gwasanaeth Llywodraeth Leol StatsWales
- 3.8 Mae ail-gydbwyso gwariant y sector cyhoeddus i fwrdd o lywodraeth leol ac o blaid y GIG yn codi pryderon bod gwasanaethau adweithiol yn cael blaenoriaeth dros rai ataliol. Y gwasanaethau cyngor yr effeithir arnynt fwyaf yw'r gwasanaethau hynny sy'n ymwneud ag ansawdd y cymdogaethau lle mae pobl yn byw, ynghyd â'r rhai sydd â'r nod o gynnal iechyd a ffitrwydd personol.
- 3.9 Mae parciau a mannau agored, ynghyd â darpariaeth arall sydd o natur ataliol, fel chwaraeon a hamdden, ynghyd ag ymyriad lefel isel neu gynnar, yn fwy tebygol o ddioddef oherwydd pwysau gwariant na gwasanaethau adweithiol fel y GIG. Ac eto maent yn rhatach a gallant arbed arian trwy leihau nifer yr ymweliadau â meddygon teulu a salwch hirdymor.
- 3.10 Ar draws y DU, amcangyfrifwyd bod gwerth llesiant parciau yn £34.2bn y flwyddyn. Mae eu harwyddocâd, ochr-yn-ochr â phwysigrwydd gwasanaethau craidd eraill y cyngor, wedi cael ei gydnabod yn eang ers blyneddau lawer ond nid yw'r cyrff cyhoeddus hynny sy'n gyfrifol am eu cynnal yn gallu rhoi lefel briodol o flaenoriaeth iddynt oherwydd nad oes ganddynt ddewis ond amddiffyn cyllidebau cytundebol ar gyfer gwasanaethau adweithiol allanol, drutach neu reoli adeiladau a adeiladwyd a'u rhedeg o dan gontractau Partneriaethau Preifat-Cyhoeddus. Trwy wneud hyn, mae allanoli gwaith yn atal cyrff cyhoeddus rhag gwneud penderfyniadau cytbwys sy'n gwneud y defnydd gorau o wariant cyhoeddus er budd y cyhoedd yng Nghymru; cwmnïau preifat, y mae llawer ohonynt wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, sydd ar eu hennill
- 3.11 Ymhlith y gwasanaethau sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol gan y newid mewn polisi cymdeithasol ers 1980 mae darpariaeth Gwasanaeth Ieuencid. Hyd yn oed cyn y cyni ariannol roedd y gwasanaeth hwn, sydd o natur ataliol, wedi'i leihau i tua hanner yr hyn ydoedd pan ddaeth llywodraeth Thatcher i rym. Erbyn 2024 roedd gwariant wedi gostwng o £120m³ yn 1980 i £45m⁴. Roedd gan Gymru 91 o ganolfannau ieuencid yn cael eu rhedeg gan gynghorau yn 2023/24. Er bod hwn yn gynydd o 3% ers y flwyddyn flaenorol, mae'n cynrychioli 62% yn llai o ganolfannau ieuencid nag yn 2010-11.
- 3.12 Mae colli darpariaeth gwasanaethau ieuencid wedi'i gysylltu â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, dirywiad yn iechyd meddwl pobl ifanc, colli cyfleoedd diogelu, lefelau uwch o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a mwy o bobl ifanc yn dioddef camfanteisio.⁵ Mae'n anodd cyfrifo'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r effeithiau hyn oherwydd y nifer o ffactorau eraill sydd ar waith, ond gyda'r costau uchel sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch economaidd pobl ifanc, troseddau ymysg pobl ifanc, ac iechyd meddwl gwael, mae'n debygol iawn eu bod yn gorbwyso'r arbedion.⁶

³ Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol y Swyddfa Gymreig / CIPFA 2024/25

⁴ StatsWales, Cyllid Gwasanaeth Ieuencid

⁵ Britain's Lost Generation, UNISON, 2024


⁶ Cost gymdeithasol toriadau gwaith ieuencid, Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol, 2023

- 3.13 Er mwyn eglurder, dylid pwysleisio, er bod y dystiolaeth yn dangos bod newid wedi bod yn y cydbwysedd rhwng cyllido gwasanaethau ataliol, yn bennaf gwasanaethau cyngor, i wasanaethau adweithiol ac yn benodol y GIG, na ddylid cymryd hyn fel awgrym bod y GIG bellach wedi'i or-ariannu. Mae pob un o'r gwasanaethau sy'n cael ystyriaeth yn yr adroddiad hwn yn dangos bwlch negyddol rhwng y galw a'r adnoddau sydd ar gael. Fel y byddwn yn dadlau, yr allwedd i reoli hyn yw adfer adnoddau i ddarpariaeth ataliol, ond ni all hyn fod ar draul gwasanaethau aciwt ac adweithiol sydd eisoes dan bwysau.

Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus

- 3.14 Yn seiliedig ar y data gweithlu diweddaraf, mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n cyflogi tua 300,000 bobl sy'n 20% o gyfanswm gweithlu Cymru. Nid yw'r ffigur hwn wedi newid yn gyffredinol ers 2008, ond mae hyn yn cuddio newid mawr yn y cydbwysedd rhwng cynghorau a'r GIG yn ystod y blynyddoedd cyni. Cynyddodd nifer y staff yn y GIG o 84,000 yn 2008 i 115,000 yn 2024, gan wrthbwysu gostyngiad mewn cyflogaeth Llywodraeth Leol o 153,000 yn 2008 i 127,000 yn 2024. Mae'r GIG bellach yn cyfrif am 38% o holl swyddi'r sector cyhoeddus yng Nghymru (i fyny o 28% yn 2008) tra bod Cynghorau bellach yn cyfrif am 42% (i lawr o 51% yn 2008). Mae'r siart isod yn dangos sut mae'r gostyngiad yn lefelau staffio Cynghorau'n cyfateb yn agos i'r cynnydd yn staffio'r GIG. Mae'r llinell las yn olrhain cynnydd yn nifer y staff yn y GIG sy'n cyfateb yn agos i ostyngiad mewn Llywodraeth Leol dros yr un cyfnod a gynrychiolir gan y llinell oren.


Cyflogaeth Sector Cyhoeddus yng Nghymru a Digwyddiadau Polisi Sylweddol (2008-2024)



- 3.15 Mae'r siart isod yn dangos yn glir sut mae lefelau staffio wedi methu â chadw i fyny â'r twf yn y galw am bob gwasanaeth, gan greu pwysau ar draws pob maes o ddarparu gwasanaethau a'r ffordd y disgwyliwyd i lai o bobl fodloni'r galw uwch. Mae hyn yn llai amlwg yn achos y GIG gan adlewyrchu tueddiad yn ystod y blynyddoedd o gynydd i geisio amddiffyn cyllidebau'r GIG ar draul meysydd eraill.

⁷ Swyddfa Ystadegau Gwladol,

Bwlch Pwysedd yng Ngwasanaethau Llywodraeth Leol Cymru (2008-2024)



- 3.16 Nid yw'r gostyngiad mewn cyllid ond yn esbonio rhywfaint ar y gostyngiad mewn lefelau staffio sydd wedi digwydd ym mhob awdurdod lleol. Mae'r tabl isod yn dangos, er bod y gostyngiad yn nifer y staff fwy neu lai yn cyfateb i'r gostyngiad mewn cyllido yn ystod y cyfnod cyni, fod y bwlch rhwng y ddau wedi cynyddu ers 2014.

Cyllido Awdurdodau Lleol Cymru o gymharu â Staffio (2008 i 2024)

Blwyddyn	Gwariant Cyfredol Net (£bn, prisiau 2024)	Nifer a gyflogir yn uniongyrchol gan gynghorau	% Newid o ran cyllido mewn termau real o 2008	% Newid o ran nifer staff o 2008
2008	£8.05bn	153,000	—	—
2010	£8.12bn	150,200	+0.9%	-1.8%
2013	£7.49bn	141,800	-7.0%	-7.3%
2016	£7.21bn	134,900	-10.4%	-11.8%
2019	£7.38bn	130,800	-8.3%	-14.5%
2022	£7.55bn	128,200	-6.2%	-16.2%
2024	£7.61bn	127,000	-5.5%	-17.0%

- 3.17 Mae cydberthynas agos rhwng cyllido a staffio; daeth y gostyngiadau mwyaf arwyddocaol yn y naill a'r llall rhwng 2010–2014, yn ystod anterth y cyni ledled y DU. Fodd bynnag, mae cyllido wedi adfer yn rhannol mewn termau real ers 2016, ond nid felly staffio. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd mewn contractio allanol, ond hefyd yn y gofynion a roddir ar aelodau unigol o weithlu'r awdurdod lleol.
- 3.18 Mae'r bwlch rhwng cyllido a newid staff bellach tua 11.5% — mae cynghorau'n gwario 5.5% yn llai nag yn 2008 (termau real) ond yn cyflogi 17% yn llai o bobl yn uniongyrchol. Mae'r bwlch hwn ar ei ehangaf ar gyfer meysydd gwasanaeth â lefelau uchel o gontractio allanol (hamdden, gwastraff, gofal cymdeithasol), lle mae arian yn dal i lifo trwy gyllidebau cynghorau ond mae staff yn cael eu cyflogi gan gwmnïau preifat.
- 3.19 Mae'r data hwn yn awgrymu mai un o brif effeithiau cyni yw cynnydd mewn allanoli, a ysgogwyd yn ôl pob tebyg gan ganfyddiad bod darpariaeth allanol yn rhatach na chyflenwi uniongyrchol. Mae'r tabl isod yn amcangyfrif nifer y swyddi uniongyrchol sydd wedi'u contractio'n allanol. Mae'n dangos, hyd yn oed lle mae cyllidebau wedi aros yn sefydlog, bod swyddi wedi cael eu colli o hyd, gyda nifer y swyddi a gafodd eu contractio'n allanol yn llai na nifer y swyddi mewnol y maent wedi'u disodli.

Maes Gwasanaeth	Colli Staff Uniongyrchol (2008–24)	% Newid Cyllideb (termau real)	% Tebygol o Swyddi “Coll” sy’n Dal i Fodoli ar Ffurf Contractio Allanol / Cyrff Hyd Braich	Rolau ar Gontract Allanol Amcangyfrifedig
Diwylliant a Hamdden	~2,400	Gwariant yn sefydlog ar y cyfan	70–80%	~1,700–1,900
Priffyrdd, Trafnidiaeth a’r Amgylchedd	~2,400	Gwariant yn sefydlog ar y cyfan	50–60%	~1,200–1,400
Gwasanaethau Cymdeithasol	~3,100	Ychydig o gynnydd mewn gwariant	40–50% (gofal cartref wedi’i gomisiynu’n bennaf)	~1,200–1,500
Tai (heb fod yn Gyfrif Refeniw Tai)	~800	Gwariant yn sefydlog	30–40%	~240–320
Addysg	~15,700	Ychydig o ostyngiad mewn gwariant	5–10% (e.e. arlwy, contractau glanhau)	~800–1,500
Gwasanaethau Canolog ac Eraill	~1,900	Gwariant yn sefydlog	20–30%	~380–570
Cyfanswm	~26,000	—	~25–30% yn dal i fodoli’n allanol	~6,500–7,800

- Mae cynghorau wedi ymdopi â phwysau cyllidebol yn rhannol trwy leihau staff mewnol, ond maent wedi cynnal gwariant trwy gontractau a grantiau i ddarparwyr allanol.
- Mae’r gostyngiad yn y gweithlu yn strwythurol — hyd yn oed gydag adferiad cymedrol mewn cyllido, nid yw cynghorau wedi ailadeiladu eu sylfaen gyflogaeth uniongyrchol.
- Mae hyn yn effeithio ar gydnerthedd gwasanaethau, atebolrwydd democrataidd, a marchnadoedd llafur lleol, yn enwedig mewn awdurdodau llai lle mae’r cyngor yn gyflogwr mawr.

Mae contractio allanol bellach yn cyfrif am bron i 50% o wariant cynghorau Cymru ar wasanaethau⁸. Yn 2008 roedd tua 42%. Mae hanner hyn yn mynd ar ofal cymdeithasol, gyda rhai cynghorau’n caffael dros 70% o’r ddarpariaeth gan ddarparwyr allanol.⁹

⁸ *StatsWales*, Cyllid Llywodraeth Leol, alldro refeniw: Taliadau Trydydd Parti yn ôl gwasanaeth

⁹ *StatsWales*, gwariant alldro refeniw yn ôl awdurdod a gwasanaeth a thaliadau trydydd parti yn ôl gwasanaeth

Cynghorau Cymru – Cyllid vs Newid Staffio (2008) → 2024)

Cyngor	Newid Cyllido (termau real)	Newid Staff	Bwlch*
Ynys Môn	-6%	-21%	-15 pwynt
Gwynedd	-5%	-16%	-11 pwynt
Conwy	-4%	-16%	-12 pwynt
Sir Ddinbych	-5%	-16%	-11 pwynt
Ceredigion	-4%	-19%	-15 pwynt
Sir Benfro	-5%	-17%	-12 pwynt
Sir Gaerfyrddin	-4%	-16%	-12 pwynt
Abertawe	-5%	-16%	-11 pwynt
Castell-nedd Port Talbot	-6%	-16%	-10 pwynt
Pen-y-bont ar Ogwr	-5%	-17%	-12 pwynt
Rhondda Cynon Taf	-5%	-17%	-12 pwynt
Merthyr Tudful	-6%	-18%	-12 pwynt
Caerffili	-5%	-16%	-11 pwynt
Blaenau Gwent	-6%	-17%	-11 pwynt
Torfaen	-5%	-17%	-12 pwynt
Sir y Fflint	-4%	-16%	-12 pwynt
Wrecsam	-4%	-17%	-13 pwynt
Powys	-5%	-17%	-12 pwynt
Bro Morgannwg	-5%	-17%	-12 pwynt
Caerdydd	-4%	-17%	-13 pwynt
Sir Fynwy	-5%	-17%	-12 pwynt
Casnewydd	-5%	-17%	-12 pwynt
Cyfanswm Cymru	-5.5%	-17%	-11.5 pwynt

*Bwlch = Newid % staff minws newid % cyllido. Mae bwlch negyddol mwy yn golygu bod niferoedd staff wedi gostwng yn gyflymach na chyllidebau.


3.20 Mae pob cyngor wedi torri staff yn gyflymach na'r cyllidebau — y bwlch lleiaf yw tua 10 pwynt canran, y mwyaf, 15. Mae hyn yn awgrymu, hyd yn oed lle mae cyllido wedi bod yn gymharol sefydlog mewn termau real, fod cynghorau wedi symud y ddarpariaeth i ffwrdd o gyflogaeth uniongyrchol.

4. Effaith Toriadau Gwariant

4.1 Mae'r data'n dangos, er bod llywodraethau olynol ers y 1970au wedi disgrifio gwasanaethau cyhoeddus fel rhai na ellir eu fforddio, bod y gwariant cyffredinol wedi aros yn gyson. Er gwaethaf hyn, mae yna fylchau eang a chynyddol rhwng galw a chapasiti yn yr holl brif wasanaethau. Mae hyn o leiaf cymaint oherwydd o newidiadau yn y ffordd y mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio ag ydyw yn sgil lefel y gwariant cyhoeddus ynddo'i hun. Yn ystod y cyfnod hwn gwelwyd:

- Gwrthdroi effaith gwasanaethau cyhoeddus o ran ailddosbarthu cyfoeth
- Gostyngiad mewn gwasanaethau ataliol mwy effeithlon, a chynnydd cyfatebol mewn darpariaeth adweithiol aneffeithlon
- Symud o fuddsoddi mewn tai i gymorthdaliadau i landlordiaid preifat
- Symudiad tuag at fudd-daliadau ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd ac i ffwrdd o wasanaethau cyffredinol
- Cyfran gynyddol o arian cyhoeddus yn mynd i elw preifat trwy drefniadau allanol
- Tanseilio systematig o statws darparwyr gwasanaethau cyhoeddus y rheng-flaen, sydd wedi effeithio'n anghymesur ar weithwyr benywaidd a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

4.2 Mae newidiadau yn y ffordd y mae cymhorthdal tai'n cael ei dalu, o frics a mortar i fudd-dal tai, wedi cynyddu rhenti'n gyflymach na chyflogau, tra bod gostyngiadau yn nifer y tai cyngor sy'n weddill wedi arwain at argyfwng o ran cyflenwad. Mae cyfanswm y gwariant cyhoeddus ar dai yn sylweddol uwch nawr nag yr oedd yn 2008, ond yn ystod y cyfnod hwn, mae costau budd-daliadau tai wedi parhau i gynyddu; bellach dyma'r elfen fwyaf o wariant ers gweithredu'r hawl i brynu ac i bob diben rhoi'r gorau i raglenni adeiladu tai cyhoeddus ar raddfa fawr yn y 1980au. Mae'r graff isod yn dangos hyn¹⁰



4.3 Roedd gwariant ar fudd-dal tai yng Nghymru yn 2000 bedair gwaith yn uwch nag yn 1980, gyda 80% o'r cynnydd hwnnw'n ymwneud â lefelau rhent cynyddol wrth i landlordiaid preifat chwarae rhan amlycach, ac wrth i dai cyngor gael eu gwerthu am brisiau gostyngol i denantiaid. Mae'r duedd wedi parhau, ac er bod cyni ariannol wedi ysgogi cyflwyno cap ar daliadau Budd-dal Tai, mae lefelau


¹⁰ Siart a gynhyrchwyd gan MS Co-pilot. Data a ddeilliodd o *StatsWales*, Trysorlys EF, yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

gwariant presennol yn dal i fod ymhell uwchlaw lefelau 2008. Mae'r symudiad o fuddsoddi cyfalaf mewn asedau tai newydd i ddarparu cymhorthdal ar gyfer rhenti preifat wedi bod yn aneffeithlon iawn; mae maint ac ansawdd stoc tai Cymru wedi gostwng, mae tai wedi dod yn gynyddol anfforddiadwy, ac mae digartrefedd wedi cynyddu.

- 4.4 Mae llai o bobl ar incwm is bellach yn gallu fforddio prynu, ac oherwydd rhenti uchel nid ydynt yn gallu cynilo ar gyfer blaendal i wneud hynny. Mae'r cynnydd yn y galw yn sgil hyn yn ysgogi chwyddiant tai pellach sy'n eithrio mwy o bobl o'r farchnad ac yn dwysáu ystod o broblemau cymdeithasol eraill sy'n gysylltiedig â thai gwael ac amodau ansicr.
- 4.5 Mae toriadau llym mewn gwasanaethau llywodraeth leol ataliol fel gwaith ieuenctid, ymyriad cynnar i deuluoedd a diogelwch cymunedol wedi sbarduno'r galw am wasanaethau adweithiol fel gofal ieuchyd, plismona, gwasanaethau llysoedd a charchardai. Mae cydberthynas glir rhwng toriadau ar y naill law a galw cynyddol ar y llaw arall.
- 4.6 Ers 2008 mae gwariant ar waith ieuenctid wedi gostwng tua 60%, ymyriad cynnar tua 50% a rhaglenni diogelwch cymunedol/dargyfeirio tua 35%. Yn ystod yr un cyfnod, mae derbyniadau brys y GIG ar gyfer pobl ifanc wedi cynyddu tua 20%, cyfraddau ieuenctid dan glo 25% a phlant sy'n cael eu cymryd i ofal tua 35%. Mae gan y grŵp olaf hwn o wasanaethau gostau uned sy'n llawer uwch na chostau'r gwasanaethau ataliol – mae costau ymyriad argyfwng gofal cymdeithasol ar gyfartaledd tua £30,000 i £40,000 y pen y flwyddyn (a gall fod yn llawer uwch), o'i gymharu â chostau cymorth teuluol ymyriad cynnar dwys fesul pen o £2,000 i £4,000 y flwyddyn.¹¹
- 4.7 Mae manteision ymyriad cynnar yn cael eu cydnabod yn eang. Derbyniodd James Heckman o Brifysgol Chicago wobr Nobel am ddulliau arloesol o werthuso rhaglenni cymdeithasol. Dangosodd ei waith ar effaith gymharol buddsoddi'n gynnar mewn plant fod y manteision economaidd a chymdeithasol uchaf yn dod o ddatblygu sgiliau'n gynnar. Mae'r buddsoddiad hwn yn arwain at lwyddiant gydol oes, cynhyrchiant cynyddol a chostau cymdeithasol is¹².

Ad-daliad ar Fuddsoddiad

Effaith economaidd buddsoddi mewn dysgu yn ystod plentyndod cynnar



- 4.8 Mae cromlin Heckman yn rhoi darlun da ac academiaidd gadarn o sut mae'r symudiad i ffwrdd o ymyriadau wedi'u rhaglennu a'u cynllunio yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at gostau mwy i gymdeithas a'r economi.

¹¹ Mesur manteision ymyriad cynnar yng Nghymru. Astudiaeth ymarferoldeb, Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru. Awst 2015

Pwysau Costau Gweithredol Tymor Byr i Ganolig sy'n Effeithio ar Ofal Cymdeithasol yng Nghymru, Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru, *LE Wales*, Mawrth 2020

¹² Heckman, James J. (2008). "Schools, Skills and Synapses," *Economic Inquiry*, 46(3): 289 -324

- 4.9 Mae ymdrechion i ddiwallu'r galw cynyddol am wasanaethau adweithiol wedi creu pwysau ychwanegol, ac fel y mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, nid ydynt wedi'u bodloni'n llawn, gan arwain at ddiffyg cyllidol sylweddol a chynyddol. Mae'r gred wleidyddol gyfredol yn mynnu bod hyn yn cael ei reoli trwy ostyngiadau pellach mewn gwariant yn hytrach na chynyddu'r trethi a gesglir.
- 4.10 Pan gynyddir trethi, elfennau lleiaf blaengar y system, h.y. y dreth gyngor, sy'n cynyddu ar y gyfradd fwyaf serth. Ynghyd â'r wasgfa barhaus ar gyllidebau lles sydd â'r nod o ailddosbarthu cyfoeth, dim ond ehangu'r bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf yn y gymdeithas y mae hyn yn ei wneud. Mae'n sbarduno'n uniongyrchol y galw am wasanaethau adweithiol drutach sy'n creu fawr ddim effaith, os o gwbl, ar achosion sylfaenol problemau cymdeithasol.
- 4.11 Mae yna gylch dieflig o doriadau mewn gwasanaethau ataliol sy'n arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau adweithiol, gan arwain at doriadau pellach i wasanaethau ataliol, sy'n sbarduno cynnydd pellach yn y galw am wasanaethau adweithiol. Os na chaiff hyn ei wrthdroi, bydd pwysau cost yn parhau i dyfu hyd yn oed tra bod darpariaeth gwasanaethau yn methu â chadw i fyny â'r galw a bod deilliannau'n dirywio. Er nad oes unrhyw lywodraeth wedi gwneud penderfyniad polisi agored i symud i ffwrdd o egwyddorion cyffredinolaid, ailddosbarthol y wladwriaeth les ar ôl y rhyfel, mae'r egwyddorion hynny'n cael eu herydu'n gyson. Y ddwy brif fenter polisi sydd eu hangen yw:
- Gwrthdroi'r cydbwysedd presennol rhwng gwaith adweithiol ac ataliol, hyd yn oed os yw hyn yn golygu ysgogiad cychwynnol ymlaen llaw – gan i bob diben ddwyn ymlaen arbedion yn y dyfodol mewn cyllid adweithiol aneffeithlon er mwyn ariannu buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol mwy effeithlon.
 - Ymagwedd fwy blaengar at drethu a gwariant sy'n cydnabod yn agored y manteision i'r gymdeithas gyfan o ailddosbarthu incwm a chyfoeth i leihau'r galw am wasanaethau sy'n gysylltiedig ag anfantais gymdeithasol-economaidd.
- 4.12 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â chaniatáu cynnydd yn y dreth gyngor, mae llywodraethau wedi dewis codi cyfraniadau yswiriant gwladol (NICs) yn hytrach na chynyddu'r cyfraddau y telir treth incwm arnynt. Mae hyn, ynghyd â rhewi trothwyon treth incwm, yn ychwanegu at y canfyddiad bod pobl ar incwm cyfartalog yn talu mwy am lai – yr hyn a elwir yn ffenomen y canol gwasgedig.
- 4.13 I awdurdodau cyhoeddus, mae cynnydd yn elfen y cyflogwr o NICs yn ymddangos fel dull aneffeithlon iawn ar gyfer darparu mwy o gyllid, gan ei fod yn cynyddu cost y ddarpariaeth ac mae'n un rheswm pam mae swyddogion cyllid cynghorau'n dadlau bod y gyfradd chwyddiant y maent yn ei hwynebu yn llawer uwch na'r lefel gyffredinol. Yn ôl ffigurau answyddogol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'n agos at 8%.

Cyflog ac amodau gwaith

- 4.14 Mae gwasanaethau cyhoeddus yn llafur-ddwys iawn. Felly mae pwysau i dorri costau yn trosi'n eithaf uniongyrchol yn bwysau i leihau costau staffio. Mae gwelliant mewn cynhyrchiant trwy arferion gwaith mwy effeithlon a gwell technoleg yn un ffordd y gellir cyflawni hyn, ond mae diffygion mewn cyllid hefyd yn effeithio ar gyflogau a phensiynau.
- 4.15 Un o effeithiau cyni yw bod cyflogau'r sector cyhoeddus wedi disgyn y tu ôl i gyflogau'r sector preifat, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf maent wedi methu â chadw i fyny â chwyddiant. Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol, bu gostyngiad o 13% yng nghyflog gwirioneddol athrawon y DU rhwng 2010 a 2019, tra bod nyrsys wedi profi gostyngiad o 7%. Bu rhywfaint o welliant rhwng 2019 a 2023, gyda chyflog athrawon yn cynyddu 5% a nyrsys 1%, ond mae hyn yn dal i'w gadael yn waeth eu byd nag yr oeddent cyn y cyfnod cyni. At ei gilydd, roedd cyflogau'r sector cyhoeddus yn 2023 1% yn is nag yr oeddent yn 2007, tra bod cyflogau'r sector preifat 4% yn uwch.¹³
- 4.16 Ffordd arall y mae costau staff yn cael eu gwasgu yw'r hyn y gellid ei alw'n orlwytho. Disgwylir i lai o staff wneud mwy heb unrhyw welliant mewn systemau na thechnoleg i'w helpu. Canlyniad hyn yn aml

¹³ Tueddiadau diweddar mewn cyflogau yn y sector cyhoeddus, IFS, 2024


yw cynnydd yn yr hyn a elwir yn alw yn sgil methiant, h.y. y gyfran o waith sydd ond angen ei wneud oherwydd methiant i wneud rhywbeth neu i'w wneud yn gywir. O ran gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn rhoi mwy a mwy o bwysau ar wasanaethau aciwt ac adweithiol, gan fwydo i'r cylch dieflig o alw a ddisgrifiwyd yn yr adran flaenorol.

- 4.17 I weithwyr gwasanaethau cyhoeddus eu hunain, mae cyflogau gwasgedig, gorlwytho ac anallu i ddarparu'r lefel o wasanaeth y maent yn gwybod sydd ei hangen yn achosi straen enfawr. Dyma'r ffactor mwyaf sydd wrth wraidd yr argyfwng recriwtio y mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ei brofi.

5. Effaith Contractio Allanol

- 5.1 Mae tystiolaeth gref i ddangos bod allanoli yn cynyddu costau ar gyfer llawer o feysydd gwasanaeth allweddol. Mae hyn yn cael ei ddangos yn glir trwy ddadansoddiad o ofal cymdeithasol plant.
- 5.2 Mae nifer y plant sy'n cael eu cymryd i ofal wedi codi'n sydyn ers 2008, gan barhau â chyflymu tuedd sy'n dyddio'n ôl i'r 1980au. Mae cost fesul plentyn sy'n derbyn gofal hefyd wedi cynyddu mewn termau real, gan ysgogi cynnydd esbonyddol yng nghyfanswm y gwariant.
- 5.3 Chwaraeodd mentrau polisi fel Deddf Plant 1989 ran yn y twf yn nifer y plant sy'n cael eu cymryd i ofal, ond mae cynnydd sydyn yn y niferoedd yn cyd-daro â chyni ac yn ddiweddarach y pandemig yn awgrymu cysylltiad achosol â gwariant ar waith ataliol. Mae'n anodd peidio â dod i'r casgliad bod y cynnydd ymhell uwchlaw chwyddiant mewn cost uned yn ganlyniad uniongyrchol i allanoli.

Gwariant ar Blant mewn Gofal a Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghymru (1980-2024)



- 5.4 Mae allanoli miloedd o swyddi gwasanaeth cyhoeddus wedi gadael meysydd hanfodol o'r wladwriaeth les mewn argyfwng. Mae cyfeiriadedd er-elw darparwyr preifat, neu, efallai'n fwy cywir, cyfeiriadedd eu buddsoddwyr, wedi gweld ffocws ar leihau costau sydd wedi effeithio'n fawr ar weithlu'r rheng flaen.
- 5.5 Er eu bod bellach yn derbyn eu cyflog gan gwmnïau preifat, mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal yn dal i fod yn ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus, a ariennir yn y pen draw trwy drethi. Ond, yn wahanol i'w cydweithwyr a gyflogir yn uniongyrchol yn y GIG, er enghraifft mae'r gweithwyr allweddol hyn wedi gweld eu cyflog a'u hamodau'n cael eu cyfyngu i'r pwynt lle maen nhw bellach yn Sinderelas gwasanaethau cyhoeddus.

- 5.6 Mae cymariaethau uniongyrchol yn anodd rhwng sefydliadau â gwahanol swyddogaethau, ond mae cynorthwyydd gofal iechyd band 3 y GIG sydd â 2 flynedd o brofiad yn ennill £26,599 ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y bydd gweithiwr gofal sydd â phrofiad tebyg ac yn gweithio i ddarparu preifat byth yn ennill mwy na'r Cyflog Byw Go lawn o £12 yr awr neu £23,000 y flwyddyn, ac mae llawer yn derbyn llai na hyn. Mae'r anghydraddoldeb yn llawer mwy na hyn fodd bynnag, oherwydd bod gan staff y GIG fynediad at gynllun pensiwn sydd â chyfradd cyfraniad cyflogwr o 23.7% ar hyn o bryd, tra bod y rhan fwyaf o weithwyr gofal wedi cofrestru ar gynlluniau sydd â'r lefel isafswm o 3% o gyfraniad cyflogwr. Mae anghydraddoldebau tebyg yn bodoli rhwng staff wedi'u hallanoli a'r rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol i awdurdodau lleol.
- 5.7 Mae'n cael ei gydnabod mewn economeg bod elw yn deillio o reoli costau. Mewn economi marchnad, y cwmnïau hynny sy'n gallu cadw costau'n isaf sy'n gallu cynnig y prisiau isaf am lefel benodol o wasanaeth. Mewn gwasanaethau llafur-ddwys fel gofal cymdeithasol, costau staff yw'r brif elfen cost gan ei gwneud hi'n anochel bod cwmnïau'n ceisio pwyso'n llym arnynt i ennill contractau, gwasanaethu eu dyledion a chreu elw.
- 5.8 O ystyried nad yw cost gyffredinol gofal cymdeithasol wedi lleihau ers dechrau allanoli ar lefel eang, mae'n anodd peidio â'i weld yn bennaf fel gweithred o drosglwyddo cyfoeth o rai o'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf ond sy'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf yn yr economi i berchnogion a buddsoddwyr yn y cwmnïau preifat y maent yn gweithio iddynt nawr. Mae llawer o'r rhain yn fuddsoddwyr ecwiti preifat rhyngwladol sydd â fawr ddim diddordeb, os o gwbl, yn llesiant gweithwyr gofal y DU na'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt nhw.
- 5.9 Ar wahân i effaith uniongyrchol cyflog isel a darpariaeth pensiwn, mae allanoli hefyd yn creu costau ychwanegol i'r wladwriaeth ar ffurf budd-daliadau mewn gwaith, (gan gynnwys budd-dal tai) a budd-daliadau ôl-ymddeol. Costau cudd allanoli yw'r rhain, ac anaml iawn, os o gwbl, y cânt eu hystyried pan fydd awdurdodau cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau. Pe baent yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad cost, mae'n annhebygol y byddai allanoli byth yn dod allan fel yr opsiwn gorau o ran gwerth am arian.
- 5.10 Er bod contractio allan yn lleihau cost uniongyrchol gwasanaethau, mae hefyd yn cael effaith andwyol ar gyflog ac amodau'r staff a gyflogir yn uniongyrchol. Roedd polisi Tendro Cystadleuol Gorfodol llywodraeth Thatcher yn ymwneud cymaint â gostwng costau mewnol ag yr oedd â chontractio allan. Er iddo gael ei ddiddymu ym 1998, mae'r egwyddor y dylai darpariaeth uniongyrchol fod yn gystadleuol o ran cost â darpariaeth breifat wedi parhau. Y canlyniad anochel yw bod cyflog, ac yn enwedig y trefniadau pensiwn, ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol wedi dod dan bwysau dwys.
- 5.11 Mae yna ddadl yn aml fod cyflogaeth uniongyrchol, yn enwedig mewn meysydd fel gofal cymdeithasol, yn anfforddiadwy. Serch hynny, mae cymariaethau cost yn cael eu gwneud o fewn ffiniau cul, heb fawr o sylw i oblygiadau cost ehangach hirdymor isafswm cyflog a phensiynau ar gyfer gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Mae'r achos a fu unwaith yn amlwg dros gydnabod gwerth y gwaith a wnânt i gymdeithas yn y cyflog a'r pensiynau a dderbyniant wedi'i golli. Mae'n eironig bod y cyfnod yn dilyn y pandemig, pan fu pobl yn sefyll ar garreg y drws yn curo dwylo i ddangos eu gwerthfawrogiad o nyrsys, gweithwyr gofal ac eraill, wedi'i ddilyn gan bwysau pellach ar wariant gwasanaethau cyhoeddus a phopeth y mae hynny'n ei olygu i weithwyr y gwasanaethau cyhoeddus hynny.

6. A Yw Allanoli Yn Gamwahaniaethol Yn Ei Hanfod?

- 6.1 Mae cyfran anghymesur o weithlu'r sector cyhoeddus yn fenywod. Menywod yw 70% o weithwyr cynghorau Cymru; felly hefyd 77% o weithlu'r GIG. Felly mae allanoli gwasanaethau cyhoeddus yn effeithio ar fenywod yn fwy nag ar ddynion, ond mae hefyd yn wir fod gan y gwasanaethau sydd fwyaf tebygol o gael eu darparu trwy gontractau â chwmnïau preifat gyfran hyd yn oed yn uwch o staff rheng flaen benywaidd. Credir bod 82% o'r gweithlu gofal cymdeithasol, er enghraifft, yn fenywod.
- 6.2 Mae gweithwyr gofal rheng flaen a'r rhai mewn rolau Rheoli Cyfleusterau meddal, fel glanhau, yn llawer mwy tebygol o gael eu cyflogi gan gontractwr preifat na'u cydweithwyr yn y gwasanaeth

cyhoeddus sy'n cael gwell cyflog, yn enwedig y rhai mewn swyddi uwch neu broffesiynol. Ar draws y DU, menywod yw 85% o'r gweithlu glanhau a 75-78% o'r gweithlu arlwyo. Mae'n debygol hefyd y bydd canran anghymesur o'r gweithlu hwn yn bobl dduon ac o leiafrifoedd ethnig.

- 6.3 Nid yw deddfwriaeth cyflog cyfartal yn caniatáu cymharu ar draws cwmnïau anghysylltiedig. Golyga hyn y gall cyflog a phensiynau gweithwyr gofal a Rheoli Cyfleusterau sy'n cael eu cyflogi'n breifat, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, fod ar eu colled o gymharu â gweithwyr gwrywaidd sy'n cyflawni gwaith o'r un gwerth yn uniongyrchol i gyrff cyhoeddus.
- 6.4 Mae cydberthynas glir rhwng yr arian y mae cwmnïau preifat yn ei dynnu o gyllidebau gwasanaethau cyhoeddus a'r gwahaniaeth rhwng costau cyflog a phensiwn gweithwyr y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Gan gynnwys costau pensiwn, mae staff rheng flaen a gyflogir gan awdurdod lleol fel arfer yn costio tua 20% yn fwy na'r rhai a gyflogir gan gwmnïau gofal yn y sector preifat. Ond nid yw'r gwahaniaeth cost o 20% hwn yn golygu costau 20% yn is i'r trethdalwr; mae'n mynd i elw a'r mecanweithiau eraill y mae cwmnïau'n eu defnyddio i ddargyfeirio arian cyhoeddus i goffrau preifat. Yn yr ystyr hwn, gellir gweld allanoli fel trosglwyddo cyfoeth o fenywod ar gyflog isel, llawer ohonynt yn darparu gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr iawn fel gofal cymdeithasol, i berchnogion neu fuddsoddwyr cyfoethog, dynion yn bennaf, mewn cwmnïau preifat.
- 6.5 Mae ymchwil ar ran UNISON gan Sefydliad Smith yn dangos sut mae allanoli gwaith yn tanseilio cyflog a phensiynau gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus a sut mae'r 'llu syfrdanol o delerau ac amodau gwahanol' a'r diffyg tryloywder 'yn ei gwneud hi'n llawer anoddach i undebau llafur fonitro materion cyflog cyfartal'. Canfu'r adroddiad y canlynol: 'yn y sector preifat, mae cyfraddau'r farchnad ar gyfer swyddi a gyflawnir yn bennaf gan weithwyr rhan-amser benywaidd yn llawer is nag ar gyfer y rhai yn y sector cyhoeddus'¹⁴.
- 6.6 Mae deddfwriaeth cyflog cyfartal yn creu dyletswydd eang i dalu dynion a menywod yn gyfartal am yr un gwaith neu waith o werth cyfartal. Mae achosion cyfreithiol wedi gweld gweithwyr gofal yn cael eu cymharu â gweithwyr casglu sbwriel, glanhawyr â'r rhai sy'n ysgubo'r strydoedd a chymariaethau eang eraill yn cael eu cydnabod fel rhai dilys. Nid yw'r ddyletswydd yn ymestyn i gymariaethau rhwng gwahanol gyflogwyr oni bai y gellir dangos bod y ddau yn 'gysylltiedig' sydd wedi'i ddehongli fel bod un o dan reolaeth y llall, neu fod y ddau o dan reolaeth trydydd parti.
- 6.7 Er nad yw deddfwriaeth cyflog cyfartal yn caniatáu i fenywod y mae eu swyddi wedi'u hallanoli i gwmnïau preifat herio'r sefyllfa hon, mae cyfraith achosion yn cadarnhau dilyswydd cymharu cyflog gweithwyr gofal a glanhawyr â chyflog casglwyr sbwriel a'r rhai sy'n glanhau strydoedd er enghraifft. P'un a ellir herio hyn yn gyfreithiol ai peidio, mae'r anghysondeb rhwng y cyflog a'r pensiynau rhwng y grwpiau hyn o weithwyr yn annheg yn wrthrychol, os nad yn gyfreithiol, pwy bynnag yw'r cyflogwyr sydd dan sylw.
- 6.8 Mae lle i ddadlau, mewn sefyllfa lle mae opsiwn allanoli yn debygol o arwain at gyflog annheg, y dylid ystyried hyn wrth asesu opsiynau. Mae mentrau polisi, gan gynnwys gweithredu dyletswydd gymdeithasol-economaidd y Sector Cyhoeddus a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn creu rhwymedigaeth ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i arfer eu swyddogaethau mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i leihau'r anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais gymdeithasol-economaidd. Mae hyn yn awgrymu, wrth benderfynu a ddylid allanoli neu ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol, y dylid ystyried yr effaith ar y gweithlu rheng flaen yn ogystal â'r gymuned ehangach.
- 6.9 Mae'n bwysig bod yn glir nad yw'r anfantais y mae menywod a phobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn ei phrofi sy'n deillio o allanoli yn ganlyniad anochel o geisio effeithlonrwydd – mae allanoli yn gyffredinol yn ddewis polisi; felly hefyd y penderfyniad ynghylch pa wasanaethau i'w hallanoli.

¹⁴ Outsourcing the cuts: pay and employment effects of contracting out, The Smith Institute, UNISON, 2014

7. Cymunedau ac Economiâu Lleol

- 7.1 Mae cyflogaeth yn y gwasanaeth cyhoeddus yn hanfodol i economi Cymru. Mae gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus yn ffurfio cyfran sylweddol o gymunedau lleol; mae cyfyngu ar eu cyflog a'u pensiynau trwy allanoli felly'n effeithio ar lesiant cymdeithasol ac economaidd ehangach y cymunedau hynny. Mae gan weithwyr ar contractau allanol lai o arian i'w wario yn yr economi leol na'u cydweithwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Ar yr un pryd, mae arian cyhoeddus yn llifo allan ar ffurf elw i gwmnïau.
- 7.2 Felly mae yna'r hyn a elwir yn effaith lluosydd negyddol yn gysylltiedig ag allanoli, lle mae'r gwerth sy'n cael ei ychwanegu at arian o gyflogau sy'n cael ei wario'n lleol wrth iddo symud trwy'r economi'n cael ei golli. Felly mae 'cost' allanoli gwasanaethau i gwmnïau nad ydynt yn lleol yn llawer mwy na'r symiau a delir iddynt am y gwasanaethau maen nhw'n eu darparu. Mae costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â budd-daliadau i weithwyr ac ar ôl iddynt ymddeol yn ychwanegu ymhellach at gost economaidd wirioneddol contractio allan.
- 7.3 Mae'r achos economaidd dros gyflogi gweithwyr yn uniongyrchol ac felly gwella cyflog a phensiynau gweithwyr hyn, tra'n rhoi terfyn ar arian cyhoeddus yn llifo allan i gwmnïau sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ardal leol, yn ymwneud i raddau helaeth â'r gwerth economaidd ychwanegol y gall hyn ei greu. Mae astudiaethau wedi dangos bod yr effaith lluosogydd sy'n gysylltiedig â gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen ymhlith yr uchaf ar gyfer unrhyw grŵp o weithwyr. Mae gweithwyr gofal er enghraifft yn debygol o wario cyfran fwy o'u hincwm yn hytrach na'i gynilo ac yn fwy tebygol o'i wario'n lleol na pherchnogion y busnesau sy'n eu cyflogi. Daw'r gwariant hwn yn incwm i bobl eraill ac mae'n ennill gwerth wrth iddo fynd trwy'r economi leol.
- 7.4 Canfu ymchwil gan APSE a CLES i werth cyflogaeth leol mewn un awdurdod fod pob £1 y mae gweithiwr rheng flaen a gyflogir yn lleol yn ei ennill a'i wario yn creu 64c ychwanegol o werth i'r economi leol.¹⁵ Mae hyn yn golygu, yn yr achos hwnnw, y byddai pob £1 a arbedir trwy leihau cost staff rheng flaen yn costio 64c i'r economi leol.
- 7.5 Byddai dargyfeirio arian i ffwrdd o elw i'w roi yn ôl ym mhocedi gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus, hyd yn oed os yw'n arwain at ychydig bach o gynnydd mewn costau darparu, o fudd i economiâu lleol a chymunedau lleol, a thrwy wneud hynny byddai'n cael effaith gadarnhaol ar y galw am wasanaethau adweithiol.

8. Cyfeiriad Polisi

- 8.1 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae llywodraeth Cymru wedi dangos eu bod yn cydnabod pwysigrwydd mabwysiadu dull hirdymor. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn creu sail statudol ar gyfer newid diwylliant, sy'n golygu symud i ffwrdd o'r ymagwedd fyr-dymor sy'n blaenoriaethu lleihau costau, a chanolbwyntio ar werth gorau yn y tymor hir. Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar saith amcan allweddol:
- Cymru lewyrchus
 - Cymru gydnerth
 - Cymru iachach
 - Cymru Fwy Cyfartal

¹⁵ McInroy N, Jackson M & Bramah M, *Creating Resilient Local Economies, exploring the footprint of public services*. APSE, CLES, INLOGOV, 2008

- Cymru o Gymunedau Cydlynol
- Cymru sydd â Diwylliant Ffyniannus a Chymraeg Byw
- Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang
- Cymru Fwy Cyfartal

- 8.2 Mae llawer o'r tueddiadau a drafodir yn yr adroddiad hwn yn mynd yn groes i'r ymrwymiad canmoladwy hwn i ddyfodol Cymru. Mae toriadau mewn gwasanaethau ataliol wedi arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau adweithiol, tra bod allanoli ar raddfa sylweddol wedi cael effaith negyddol ar lesiant miloedd o weithwyr allweddol yn y gwasanaeth cyhoeddus.
- 8.3 Mae cyfyngu ar gyflogau a phensiynau'n niweidio economïau lleol, yn cronni costau cudd ac yn tanseilio ansawdd gwasanaethau craidd fel gofal cymdeithasol. Mae toriadau mewn gwasanaethau ymyriad cynnar, fel gwaith ieuencid, yn gysylltiedig â chynnydd yn y galw am wasanaethau cyfiawnder troseddol drud a chanlyniadau negyddol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol fel ei gilydd. Yn y tymor hir, nid yw hyn yn gynaliadwy o ran canlyniadau a chost.
- 8.4 Mae gofalu am fuddiannau cenedlaethau'r dyfodol yn galw am ddull sy'n blaenoriaethu buddsoddiad ataliol yn lles unigolion, yn ogystal â gofal priodol am y mannau ble maent yn byw. Rhaid i bolisi cymdeithasol gydnabod gwerth cynhenid gwasanaethau personol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y person a'r gwerth ychwanegol a ddaw o ofalu am y parth cyhoeddus. Mae angen iddo allu gwahaniaethu rhwng gwariant sy'n fuddsoddiad mewn cenedlaethau'r dyfodol a gwariant sy'n deillio o fethu â gwneud y buddsoddiad hwnnw. Mae hyn yn allweddol i reoli'r galw am wasanaethau adweithiol drud, ac yn y pen draw, yr unig ffordd i ddechrau cau'r bwlch rhwng refeniw cyhoeddus a chost gynyddol gwasanaethau cyhoeddus a budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd.
- 8.5 Mae achos cenedlaethau'r dyfodol dros gontractio mewnol yn un cryf. Mae trosglwyddo cyfoeth o weithwyr gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen i berchnogion a chyllidwyr cwmnïau preifat a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gymunedau ac economïau lleol yn amlwg yn niweidiol i lesiant cenedlaethau i ddod. Hyd yn oed pe bai ffordd o gysoni cyflogau a phensiynau'r sector preifat â'r sector cyhoeddus, ni fyddai hyn yn atal colli adnoddau cyhoeddus prin i elw preifat. Ni ellir arbed yr adnoddau hyn mewn sefyllfa lle mae ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a'r parth cyhoeddus yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer llesiant cymunedau Cymru yn y dyfodol.
- 8.6 Mae yna set o ddangosyddion llesiant cenedlaethol allweddol i asesu cynnydd tuag at amcanion Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r rhan fwyaf, os nad pob un ohonynt, yn cefnogi'r angen i adfer cyllidebau ar gyfer gwasanaethau cyffredinol sy'n canolbwyntio ar lesiant cymunedol ac ymyriad cynnar. Mae bron bob dangosydd yn cyfeirio at 'Gymru fwy cyfartal' a'r angen i adeiladu ffyniant. Bydd yr amcanion canolog hyn yn cael eu cyflawni'n well trwy fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd anfantais economaidd-gymdeithasol na thrwy ddarpariaeth rhwyd ddiogelwch dila neu wasanaethau sy'n delio â chanlyniadau nid achosion.
- 8.7 Mae rhai o'r mesurau'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol i fynd i'r afael ag effaith cyflogau a phensiynau isel sy'n gysylltiedig â'r wasgfa ar wasanaethau cyhoeddus oherwydd cyni ariannol a'r ymgais i dorri costau trwy gontractio allan. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

16. Cyflog teg

- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

17. Gwahaniaeth cyflog

- Cymru lewyrchus
- Cymru fwy cyfartal

18. Pobl sy'n byw mewn tlodi

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru sydd â diwylliant ffyniannus a Chymraeg byw
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

19. Pobl sy'n byw mewn amddifadedd materol

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynol
- Cymru sydd â diwylliant ffyniannus a Chymraeg byw
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

20. Cyflog a bennir trwy fargeinio ar y cyd

- Cymru lewyrchus
- Cymru iachach
- Cymru fwy cyfartal


- 8.8 Mae'r mesurau hyn yn rhagweld cymdeithas sy'n mynd ati'n fwriadol i osgoi'r anghydraddoldebau cynyddol sy'n deillio'n anochel o'r symudiad i ffwrdd o egwyddorion cyffredinolïaeth ac ailddosbarthu cyfoeth a sbardunodd wladwriaeth les y DU. Felly mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn her uniongyrchol i wleidyddiaeth cyni.
- 8.9 Mae cyni'n ymwneud â mwy na dim ond torri'n ôl ar wariant cyhoeddus – os dyna oedd y nod, mae wedi methu gan nad oes unrhyw ostyngiad cyffredinol wedi bod. Mae hefyd yn ymwneud â newid sail sylfaenol polisi cymdeithasol y DU (efallai mai dyma oedd prif amcan y polisi). Yn hytrach na blaenoriaethu deilliannau cymdeithasol ac economaidd, mae cyni'n rhoi blaenoriaeth i dorri trethi. Fel y gwelwyd fodd bynnag, nid yw baich cyffredinol trethiant wedi lleihau mewn gwirionedd. Yr hyn sydd wedi newid yw bod y baich wedi symud i ffwrdd o'r bobl fwyaf cyfoethog yn talu mwy, tuag at ddull mwy gwastad, llai blaengar lle mae'r tlawd yn ysgwyddo rhan gynyddol o'r gost.
- 8.10 Mae newidiadau sylfaenol eraill mewn polisi cymdeithasol, fel symud o ddarparu tai cymdeithasol i roi cymhorthdal i rent preifat, yn tanseilio ymhellach effaith ailddosbarthol y wladwriaeth les. Yn eironig, fel y mae'r adroddiad hwn yn ei ddangos, maent hefyd yn gwneud y system yn llai effeithlon ac yn cynyddu'r galw am wasanaethau adweithiol ac aciwt y gellid bod wedi'u hosgoi pe bai darpariaeth ataliol wedi bod ar waith.
- 8.11 Methodd toriadau yn sgil cyni i gyllidebau cynghorau â lleihau cost gyffredinol gwasanaethau cyhoeddus a lefelau treth ond maent wedi:
- Niweidio gwasanaethau ataliol
 - Ysgogi cynnydd mewn gwasanaethau adweithiol
 - Cyflymu allanoli mewn meysydd gwasanaethau allweddol
 - Creu costau uned uwch

- Creu bwlch cynyddol rhwng cyflenwi a galw
- Cyfyngu ar gyflog a phensiynau gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus ym mhob sector
- Cynyddu'r arian sy'n cael ei golli o gronfeydd cyhoeddus ac o economïau lleol/rhanbarthol i fuddsoddwyr a pherchnogion preifat
- Atal symudedd cymdeithasol
- Dwysáu'r bwlch cydraddoldeb rhwng gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus rheng flaen wedi'u hallanoli, canran anghymesur ohonynt yn fenywod ac yn bobl dduon ac Asiaidd, sydd ar gyflog isel, a rheolwyr llywodraeth leol sy'n cael cyflog uwch.
- Symud y cydbwysedd ymhellach i ffwrdd o wasanaethau cyffredinol a chynhwysol sy'n gwella bywyd cyfan tuag at fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd nad ydynt yn cael unrhyw effaith, os o gwbl, ar anfantais ryng-genedlaethol.

9. Y Ffordd Ymlaen

- 9.1 Nid bwriad yr adroddiad hwn yw creu rhestr ddymuniadau ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus sy'n anwybyddu realiti economaidd. P'un a yw am wneud hynny ai peidio, nid yw llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i wneud ymrwymïadau gwariant heb eu hariannu. Er gwaethaf hyn, bydd cyflawni ei hamcanion ei hun yn ei gwneud yn ofynnol i lywodraeth Cymru fabwysiadu ymagwedd lawer mwy hirdymor o ymdrin â chwestiwn fforddiadwyedd os yw am dorri'r cylch sy'n gweld toriadau mewn darpariaeth ataliol effeithlon gan arwain at alw cynyddol am wasanaethau adweithiol aneffeithlon.
- 9.2 Mae'r broblem o sut i fynd i'r afael â hyn yn cael ei harchwilio mewn rhannau eraill o'r DU. Ar ôl dod i'r casgliad bod 'lefelau uchel o adnoddau cyhoeddus yn cael eu neilltuo'n flynyddol i liniaru problemau cymdeithasol a mynd i'r afael â 'galw yn sgil methiant' – galw y gellid bod wedi'i osgoi trwy fesurau ataliol cynharach, roedd Comisiwn Christie, a adroddodd i Lywodraeth yr Alban yn 2015, hefyd o blaid ail-fuddsoddi mewn darpariaeth gwasanaethau ataliol. Ni chynigiodd y Comisiwn unrhyw ddatrysiad i'r penbleth o sut i ail-ganolbwyntio ar wasanaethau y gellir eu hystyried yn fuddsoddiadau cymdeithasol pan fydd arbedion canlyniadol mewn cyllidebau adweithiol yn cymryd amser i gael eu gwireddu. Serch hynny, mae'n nodi 'nad oes dewis amgen: os na lwyddwn i newid i gamau ataliol, bydd y galw cynyddol yn sgil methiant yn trechu gallu ein gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni canlyniadau'.
- 9.3 Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â chasgliadau Comisiwn Christie ac yn nodi bod bwriad polisi Llywodraeth Cymru hefyd yn alinio â'i ddealltwriaeth o'r angen am ail-ganolbwyntio ar atal a chyffredinolïaeth. Rhaid i holl lywodraethau gwledydd y DU ddod o hyd i ffyrdd o adfer cyllido i'r meysydd gwasanaeth hynny sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol o anghydraddoldeb, atal a pharth cyhoeddus o ansawdd uchel. Ochr-yn-ochr â hyn ac fel rhan ohono, dylent hefyd gael gwared ar y cymhelliant gwyrddoedig y mae contractio allan yn ei greu pan fydd yn caniatáu i gwmnïau preifat greu elw trwy gyfyngu ar gyflog a phensiynau gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus a niweidio economïau lleol. Mae'r prif argymhellion yn cynnwys:
- Dod ag arbedion ar alw yn sgil methiant yn y dyfodol ymlaen, er mwyn ysgogi ail-fuddsoddiad sylfaenol mewn ymyriad cynnar a darpariaeth ataliol.
 - Cyllido benthyca ar gyfer ail-fuddsoddi – e.e. mewn tai sector cyhoeddus – dros gyfnod llawer hwy – 100 mlynedd yn hytrach nag 20 neu 30 mlynedd
 - Gwahaniaethu rhwng buddsoddi, gan gynnwys mewn pobl, a gwariant a blaenoriaethu'r cyntaf o'r rhain
 - Cydnabod gwerth cynhenid parth cyhoeddus sydd wedi'i gynnal yn dda
 - Cydnabod y manteision cynhenid i'r gymuned gyfan o dalu gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus yr hyn y maent yn ei werth a darparu pensiynau digonol iddynt
 - Adfer egwyddor aiddosbarthu cyfoeth fel elfen hanfodol o'r wladwriaeth les
- 9.4 Mae'r mesurau hyn yn ei gwneud yn ofynnol ail-werthuso'r rheolau cyllidol sy'n llywodraethu cynlluniau gwariant llywodraeth y DU.

- 9.5 Mae 'rheol sefydlogrwydd' llywodraeth bresennol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r gyllideb gyfredol fod ar y trywydd iawn i allu cydbwysu'r fantolen, neu fod arian dros ben, erbyn 2029/30. Mae hyn yn golygu symud i sefyllfa lle mae gwariant (refeniw) o ddydd i ddydd yn cael ei ariannu o refeniw a bod benthycia'n cael ei ddefnyddio ar gyfer buddsoddi yn unig. Ar hyn o bryd, mae gwariant ar ffurf buddsoddi (cyfalaf) yn cynnwys gwariant ar asedau ffisegol yn bennaf, fel priffyrdd, a.y.b. Mae benthyciadau myfyrwyr yn eithriad i hyn sy'n rhoi enghraifft o sut y gellir gwahaniaethu rhwng buddsoddi mewn pobl, e.e. addysg blyneddoddd cynnar, a gwariant cyffredinol, os yw'r llywodraeth yn dewis hynny, a'i eithrio o'r diffiniad o wariant o ddydd i ddydd.¹⁶
- 9.6 Mae Rheol Gyllidol rhif 2 yn nodi y dylai dyled ariannol net ostwng fel cyfran o'r economi yn 2029/30. Mae'r Canghellor wedi mabwysiadu mesur newydd o hyn o'r enw Dyled Ariannol Net y Sector Cyhoeddus sy'n ymgorffori ystod ehangach o rwymedigaethau ariannol y llywodraeth na'r diffiniad blaenorol, Dyled Net y Sector Cyhoeddus. Yn ôl rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, disgwylir i hyn fod o fewn cyrraedd, gan adael mwy o le ar gyfer gwariant buddsoddi nag a fyddai wedi bod o dan y diffiniad blaenorol.
- 9.7 Mae'r rhesymau pam bod diffyg cyllidebol y DU a dyled y sector cyhoeddus wedi codi i lefelau uchel yn gymhleth. Mae ffactorau demograffig yn chwarae rhan bwysig – mae gwariant ar bensiynau er enghraifft bellach tua 7% o CDG o'i gymharu â dim ond 2% yn y 1950au, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod pobl yn byw'n llawer hŷn y dyddiau hyn. Fodd bynnag, nid yw'n afresymol tynnu sylw at y newid yn y cydbwysedd rhwng atal ac adwaith a rhwng budd-daliadau rhwyd ddiogelwch a buddsoddiad cyffredinol mewn pobl fel ffactorau sydd wedi cyfrannu at y sefyllfa hon.
- 9.8 Mae'r tabl isod yn dangos sut mae gwariant ar ffurf buddsoddi wedi gostwng ers canol y chwedegau pan oedd adeiladu tai'r sector cyhoeddus yn ei anterth.



- 9.9 Fel y trafodwyd, mae ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol yn elfen hanfodol o reoli'r galw yn sgil methiant sy'n dod i'r amlwg fel pwysau cost ar wasanaethau aciwt ac adweithiol. Mae dod ag arbedion yn y dyfodol ymlaen yn allweddol i hyn, ond mae'n debygol hefyd y bydd angen cynnydd hirdymor yng nghyfanswm y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus os yw amcanion polisi llywodraeth Cymru i gael eu gwireddu.
- 9.10 Mae hwn yn fater i'r DU gyfan, ond gall llywodraeth Cymru egluro i lywodraeth y DU beth sy'n ofynnol,

¹⁶ Am archwiliad manwl o hyn gweler Zaranko. B, Public investment: what you need to know, Institute for Fiscal Studies, April 2024

a dylai wneud hynny. Wrth gyflwyno'r dadleuon hyn mae'n bwysig gwrthbrofi'r myth na ellir fforddio gwasanaethau cyhoeddus. Dewisiadau polisi yw faint o dreth y mae'r wlad yn ei thalu, sut mae'r dreth hon yn cael ei chodi a faint mae gwahanol grwpiau yn y boblogaeth yn ei dalu.

- 9.11 Ar hyn o bryd, y dewis polisi yw trethu ar lefel is nag mewn gwledydd eraill sydd â pholisïau cymdeithasol cymharol ac i effaith ailddosbarthol net y gwariant hwnnw fod yn is hefyd. Canlyniad hyn yw'r canol gwasgedig sy'n gwneud i lawer o bobl deimlo eu bod yn talu mwy am lai, ac mae'n gwneud unrhyw ymgais i gau'r bwlch cyllidol yn anodd yn wledyddol.
- 9.12 Fodd bynnag, nid oes unrhyw benderfyniad cyfatebol amlwg wedi cael ei wneud i symud i ffwrdd o addewidion allweddol gwladwriaeth les y DU - gofal iechyd ac addysg am ddim a.y.b. Y canlyniad yw'r bylchau yn y galw a nodwyd yn yr adroddiad hwn a'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau adweithiol sy'n deillio o doriadau i ddarpariaeth ataliol. Mae'r sefyllfa hon yn anghynnaladwy.
- 9.13 Mae gan Gymru a'r DU ddewisiadau polisi. Gallant ddewis glynu wrth yr addewidion a wnaed gan lywodraeth 1945. Gallant ddewis bod â system ailddosbarthu cyfoeth sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel. Ond ni ellir cyflawni'r model hwn heb fodel cyfatebol o drethiant graddol.
- 9.14 Roedd ailddosbarthu incwm yn nodwedd hanfodol o bolisi cymdeithasol ar ôl y rhyfel, ac mae'n parhau i fod yn nodwedd hanfodol o unrhyw wladwriaeth les fodern. Nid yw'r DU yn gwneud hyn mor gryf â gwledydd Nordig na gwladwriaethau Gorllewin Ewrop fel Ffrainc a'r Almaen, ond mae anghydraddoldeb ôl-dreth yn y DU yn sylweddol is nag mewn gwladwriaethau eraill Saesneg eu hiaith fel yr Unol Daleithiau, Canada ac Awstralia.
- 9.15 Dylai cynyddu'r dreth gyffredinol a gesglir a lefel yr ailddosbarthu i ddod yn nes at lefel y trethi mewn gwladwriaethau cymharol fod yn amcan polisi yn hytrach na pholisi i'w fabwysiadu fel dewis olaf. Ond dylai unrhyw gam i wneud hynny hefyd fynd i'r afael â gwahaniaethau eraill – o bosibl gwahaniaethau mwy arwyddocaol – rhwng polisïau cymdeithasol gwladwriaethau mwy cyfartal a pholisïau'r DU, sef y cydbwysedd rhwng trosglwyddiadau arian sy'n seiliedig ar brawf modd ac ailddosbarthu sy'n seiliedig ar wasanaethau. Mae'r DU yn anarferol yn Ewrop: mae'n ailddosbarthu llawer ar ffurf budd-daliadau ariannol, yn enwedig pensiynau a throsglwyddiadau ar sail prawf modd, ond mae'n buddsoddi llai mewn gwasanaethau sy'n lleihau anghydraddoldeb dros gwrs bywyd.
- 9.16 Cyflawnir ailddosbarthu yn y DU trwy wario 60% ar ffurf trosglwyddiadau ariannol a 20% ar wasanaethau, gyda'r 20% sy'n weddill yn cynrychioli effaith ailddosbarthu trethiant graddol.¹⁷ Yn y gwledydd Nordig mae'r gyfran yn agosach at 40% ar ffurf trosglwyddiadau arian parod a 40% ar wasanaethau, gyda threthi hefyd yn cyfrannu 20% at lefel gyffredinol yr ailddosbarthu.¹⁸
- 9.17 Mae'r enghraifft o sut mae budd-dal tai wedi disodli brics a morter fel prif gydran gwariant y sector cyhoeddus ar dai yn dangos sut y gall trosglwyddiadau ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd fod yn llai effeithlon a chyflawni canlyniadau gwaeth na gwasanaethau cyffredinol o ansawdd uchel. Mae'n arwyddocaol bod y gwladwriaethau Nordig, gyda'u lefelau trethiant uwch a'u lefelau cyfatebol uwch o fuddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus cyffredinol, yn rheolaidd yn dod i'r brig o ran mesurau hapusrwydd. Mae'r Ffindir wedi bod yn y safle uchaf am wyth mlynedd yn olynol, tra bod y DU yn dod yn 20^{fed}.¹⁹
- 9.18 Yn ogystal â bod ag un o'r lefelau uchaf o drethi a gesglir yn yr OECD (42% o CDG)²⁰, mae'r Ffindir hefyd yn cyflawni un o'r lefelau ailddosbarthu uchaf²¹ (tua 30 pwynt Gini)²² ac mae'n gwneud hynny'n bennaf trwy wasanaethau cyffredinol heb fawr o brofion modd. Mae gofal plant, gofal i'r henoed a gofal iechyd am ddim o ansawdd uchel yn elfennau amlwg ym mholisi cymdeithasol y wlad. Mae'r Ffindir hefyd yn un o lond llaw o wledydd sydd wedi cyflwyno treth tir. Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei argymhell ers tro gan amrywiaeth o arbenigwyr ar gyfer y DU, ac mae'n rhywbeth sy'n derbyn

¹⁷ Effects of taxes and benefits on UK household income: financial year ending 2024, ONS, Sept 2025

¹⁸ OECD Social Expenditure (SOCX) database, OECD Income Distribution Database (IDD)

¹⁹ World Happiness Report: The Full list of countries for 2025, Time Out, March 2025

²⁰ Revenue Statistics 2024, Finland, OECD, 2024

²¹ Development of Income Inequality, 1986-2023, Gini coefficient, StatFin Database, 2024

²² Y cyfernod Gini yw'r mesur o anghydraddoldeb incwm neu gyfoeth a ddefnyddir i gymharu gwahanol wladwriaethau.

cefnogaeth drawsbleidiol eang.²³

- 9.19 Mae buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n lleihau anghydraddoldeb trwy gydol oes – tai, gofal plant cyffredinol, gwasanaethau ieuencid ac ymyriadau iechyd ataliol, er enghraifft, yn ddefnydd gwell o arian cyhoeddus na budd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd sy'n gwneud fawr ddim mwy na chodi pobl i safon byw isaf sy'n dderbyniol, ac nid ydynt yn gwneud dim i fynd i'r afael â thlodi o un genhedlaeth i'r nesaf. Efallai y bydd mynd i'r afael â hyn yn golygu cynnydd cyffredinol yn lefel y trethiant a'r ailddosbarthu, ond ymrwymiad i egwyddor ail-gydbwyso tuag at wasanaethau cyffredinol sy'n gwella bywyd, ac i ffwrdd o fudd-daliadau rhwyd ddiogelwch sy'n seiliedig ar brawf modd, yw'r cam cyntaf a mwyaf hanfodol tuag at DU fwy cyfartal a hapusach.

Ymwadiad

Darperir adroddiadau APSE ar gyfer gwybodaeth amlinellol ar faterion yn ymwneud â chostau, cynhyrchiant ac ansawdd i lywio penderfyniadau. Nid ydynt yn cynrychioli cyngor ffurfiol. Atgoffir defnyddwyr i sicrhau y dylai unrhyw benderfyniadau fod yn destun y prosesau arferol cyn gweithredu ar adroddiadau neu wybodaeth ynghylch perfformiad. Mae hyn yn cynnwys materion diwydrwydd dyladwy o fewn eich cyngor neu sefydliad.

NEW MUNICIPALISM

Delivering for local people and local economies

²³ Gweler er enghraifft, *To fix Britain's broken property taxes – Labour must back a Land Value Tax*, Qureshi M. Labour List, Tachwedd 2, 2025 a *Radical land tax proposal gains traction with support from across the political spectrum*, Young J, Business Matters, Awst 27, 2024

